

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 2 Tachwedd 2016

Preseanol: Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Mr S Barnard, Miss S Barnes, Mr M Day, Mr D Fordham, Mrs T Hibbert, Mr W Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, , Dr L Murphy, Dr L Jones, Mr D Owen, Miss E Riches, Mrs E Parry Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheur iadau: Mrs M Lake, Dr K Mundy, Yr Athro C Tully, Dr C Gwenin, Mr D Williams, Mr D Roberts, Yr Athro J. Hughes.

497. COFNODION

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Mrs T Hibbert yn ei swyddogaeth fel Cyfarwyddwr newydd Adnoddau Dynol. Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 18 Gorffennaf 2016.

498. MATERION YN CODI

- a) Cofnod 491 ADOLYGU POLISI IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL (Cyfrifoldebau a Threfniadau): Dros yr haf cynhaliwyd cwrs hyfforddi ar Arweinyddiaeth gydag Iechyd a Diogelwch, wedi'i anelu at staff uwch. Nid oes sesiynau pellach wedi'u trefnu ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau adnoddau.

499. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Rhoddyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2015/16, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- a. **Archwiliad Iechyd a Diogelwch Sefydliadol:** Cafodd lefel perfformiad y brifysgol sgôr 'ambr / gwyrdd' yn archwiliad mewnol yr RSM. Nododd yr archwiliad ddau faes o ddiddordeb, sef: methu â rhoi tystiolaeth am gyrsiau hyfforddi a drefnir yn lleol a methu â chysylltu pryniannau teithio dramor â'r system yswiriant teithio. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro'r camau gweithredu y bwriedir eu cyflawni.
- b. **Rheoli Risg ar lefel Brifysgol:** Mewn asesiad ansoddol o berfformiad yn ymwneud â nifer o beryglon/risgiau ar draws y brifysgol (a gymerwyd o'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol) nodwyd dau faes o wendid, sef diogelwch cerddwyr (dau safle) a threfniadau allanol i liniaru risg llithro, baglu a syrthio. Nodwyd ymhellach bod Rheoli Asbestos yn cael ei asesu ar wahân.
- c. **Damweiniau a Digwyddiadau:** Yn 2015/16 derbyniwyd 156 adroddiad am ddigwyddiadau na achosodd anaf (yn cynnwys Dulliau Gweithredu Anniogel, Digwyddiadau a allai fod wedi achosi damwain, a Salwch), sef cynnydd sylweddol ar y 55 a nodwyd yn 2014. Rhoddyd gwybod am 78 damwain a achosodd anafiadau, 52 i staff a 26 i fyfyrwr. Cymerodd 8 aelod staff 1 diwrnod neu fwy o'r gwaith o ganlyniad i'w hanaf. Prif achosion damweiniau o hyd yw trin a thrafod llwythi a llithro, baglu a syrthio. Cafwyd 4 digwyddiad yn 2015/16 lle bu angen dilyn trefn adrodd RIDDOR.

- d. Digwyddiadau Teithio Dramor:** Yn ystod 2015/16 cafwyd 1,424 achos o deithio dramor. O'r rhain bu'n rhaid i 10 aelod staff neu fyfyrwyr gael sylw meddygol tra oeddent dramor, 6 oherwydd salwch a 4 oherwydd anaf.
- e. Absenoldeb Salwch:** Cofnodwyd 5.02 o dyddiau absenoldeb salwch y pen i aelodau staff CALL yn 2015/16, ychydig is na chyfartaledd cenedlaethol y sector. Mae cyflyrau cyhyrsgerbydol a seicolegol yn parhau'n ddau brif achos absenoldebau tymor hir a ardystiwyd yn feddygol.
- f. Archwiliad Iechyd:** Cafodd dros 130 o staff archwiliad iechyd blynyddol i gefnogi eu hiechyd a chadarnhau nad yw eu gwaith yn achosi niwed iddynt. Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar iechyd.
- g. Larymau Tân yn Canu:** Bu cynnydd bychan yng nghyfanswm nifer yr achosion i 127 (123 yn 2014/15); gostyngiad o 46 i 44 mewn Adeiladau Gweinyddol/Academaidd a chynnydd yn nifer yr achosion yn y neuaddau preswyl o 77 i 83.
- h. Y Frigâd Dân yn dod allan:** Yn dilyn sefydlu trefn o ymchwiliadau mewnol i danau posibl, dim ond ar 23 achlysur y daeth y Frigâd Dân allan yn dilyn larymau tân yn canu. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â 116 yn 2014.
- i. Tanau:** Cafwyd un tân yn 2015/16, gyda bwyd yn coginio heb neb yn cadw golwg arno yn arwain at ddifrod mwg i gegin un o'r neuaddau.
- j. Camau Gorfodi:** Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2015/16.
- k. Hawliadau Sifil (Cysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch):** Cafwyd un Hawliad Sifil newydd am anaf personol yn ymwneud ag aelod staff a digwyddiad llithro/syrthio.
- l. Hyfforddiant Staff:** Cymerodd 309 o staff/myfyrwyr ran mewn 56 o sesiynau hyfforddi yn 2015/16. Priodolir y gostyngiad hwn ar ffigurau 2014 (579 o gyfranogwyr / 100 o sesiynau) i'r ffaith fod hyfforddwr yr adran wedi gadael. I wneud iawn am hyn yn rhannol, mae'r Gwasanaethau IaD yn bwriadu cynyddu eu darpariaeth hyfforddiant ar-lein.
- m. Monitro Safleoedd Contractwyr:** Cyflawnodd y Tîm Ystadau a Chyfleusterau 148 Archwiliad Monitro ffurfiol ar Safleoedd Contractwyr yn 2015/16, gostyngiad o 23% o'i gymharu â 2014. Mae canran archwiliadau lle nodwyd problemau gydag iechyd a diogelwch wedi cynyddu o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- n. Ystadegau Blynyddol / Asesiadau Risg IaD Colegau / Adrannau:** Fe wnaeth 100% o Golegau a 95% o Adrannau gwblhau eu Hystadegau Blynyddol IaD mewn pryd. Fe wnaeth 80% o Golegau ac 86% o Adrannau gwblhau ac adolygu eu Hasesiad Risg Cyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf.
- o. Digwyddiadau Hybu Iechyd:** Cynigiwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ar y cyd i staff/myfyrwyr yn 2015/16: Gwaed mewn Dŵr i godi ymwybyddiaeth o rai heintiau a chanserau, digwyddiadau i hwyluso pethau i rieni a Banciau Bwyd i annog rhoi bwyd etc i rai sydd mewn angen ym Mangor. Yn ogystal, roedd amrywiaeth o gyfleoedd i staff gadw'n heini: teithiau beicio, dyddiau golff, teithiau cerdded.
- p. Tŷ Gobaith:** Ar hyn o bryd mae 24% o staff yn cyfrannu £1 y mis drwy'r Loteri Staff. Codwyd dros £3,200 drwy hyn yn 2015/16.

Diolchodd y cadeirydd am yr adroddiad a gofynnodd i aelodau'r pwyllgor anfon unrhyw

awgrymiadau ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) ychwanegol neu wedi'u haddasu. Nodwyd y caiff crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i'r Cyngor.

500. TREFNIADAU ARCHWILIAD RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH

Rhoddyd crynodeb o'r broses newydd o archwilio rheoli iechyd a diogelwch, a ddatblygwyd i roi sylw i drafferthion gyda'r pecyn archwilio blaenorol. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae cynhyrchu'r pecyn archwilio newydd yn dilyn cyflwyno'r safon genedlaethol newydd ar gyfer "arweinyddiaeth a rheolaeth iechyd a diogelwch" ac mae'r brifysgol yn trefnu ei Pholisi Iechyd a Diogelwch newydd yn unol â hyn.
- ii. Cymerrir pob pwynt archwilio allweddol (meincnod) o'r safon genedlaethol a Pholisi'r Brifysgol gyda thri mesur perfformiad wedi eu pennu:
 - SYLFAENOL: perfformiad wedi cyrraedd y disgwyliadau sylfaenol.
 - SYLWEDDOL: y mesurau a sefydlwyd yn dangos cydymffurfio sylweddol.
 - UCHEL: perfformiad wedi cyrraedd y safonau sefydliadol a chenedlaethol uchaf (heb geisio cael ei ystyried fel patrwm).
- iii. Defnyddir archwiliadau byrrach gyda thema benodol iddynt yn ychwanegol at yr Archwiliad Perfformiad Rheoli i werthuso perfformiad mewn meysydd risg allweddol mewn Colegau/Adrannu.
- iv. Datblygir Archwiliadau Thematig, gyda'r darganfyddiadau'n cael eu cyflwyno gyda'r Adroddiad Archwiliad Perfformiad Rheoli.
- v. Caiff yr amserlen archwilio ddrafft ei gwerthuso'n dilyn yr archwiliad cyntaf.
- vi. Trafodir holl adroddiadau archwilio gyda'r Deon neu Bennaeth cyn cael eu hystyried gan y Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch. Yn dilyn hyn cyflwynir y prif adroddiad i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch er gwybodaeth.

501. ADRODDIAD GAN GRŴP TASG Y PWYLLGOR GWEITHREDU DIOGELWCH

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, mae'r Grŵp Tasg wedi cyfarfod ar un achlysur, a nodwyd y materion canlynol er gwybodaeth:

- a. Trefniadau Rheoli Asbestos: Ystyriodd y Grŵp Tasg drefniadau interim y Gwasanaethau Eiddo a Champws (PACS) i reoli gwybodaeth allweddol yn ymwneud ag asbestos, yn dilyn nodi anghysondebau lluosog mewn data. Mae Arbenigwr Asbestos yn cefnogi PACS i ganfod a datrys anghysondebau mor gyflym â phosibl.
- b. Rheoli Risg PACS: Er mwyn rhoi sylw i oblygiadau cyfyngiadau ariannol ac adnoddau, bydd Grŵp Tasg PACS o hyn ymlaen, fel rhan o'i gylch gorchwyl, yn gwerthuso dod i gysylltiad â risgiau posibl a goruchwylio lliniaru a rheoli risgiau.
- c. Cynllun Gwaith HSS 16/17: Mae cynllun gwaith presennol y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn cynnwys: archwilio, adolygu a datblygu dogfennau, ac adolygu trefniadau hyfforddiant i staff.
- d. Enw'r Grŵp Tasg: Cyfeirir at y grŵp yn awr fel y 'Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch'

a fydd yn adlewyrchu ei swyddogaeth yn well a chyd-fynd â Grwpiau Tasg Rheolaeth Weithredol eraill.

502. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU

Codwyd yr eitemau allweddol isod:

- i. Gohiriwyd gweithredu PLANON Accelerator V14 tan Ionawr/Chwefror 2017.
- ii. Mewn ymateb i faterion cyfredol yn ymwneud ag adnoddau, mae PACS wedi adolygu ac ad-drefnu eu cyllideb i sicrhau y cynhelir gwasanaethau allweddol a chydymffurfio â gofynion statudol.
- iii. Gwnaed adolygiad llawn o wybodaeth yn ymwneud ag asbestos a lle i sicrhau cywirdeb data PLANON V14. Rhoddwyd mesurau lliniaru cadarn ar waith yn ystod yr adolygiad i reoli data'n ymwneud ag asbestos a lle.

Yn dilyn trafodaethau, gofynnodd y cadeirydd am i adroddiad ysgrifenedig gael ei ddosbarthu gyda'r papurau agenda eraill yn y dyfodol.

503. EITEMAU GAN AELODAU'R PWYLLGOR

Dim.

504. UNRHYW FATER ARALL

Nodwyd y canlynol:

- i. Rhoddwyd sicrwydd nad yw'r brifysgol yn yr un sefyllfa â rhai ysgolion a phrifysgolion sydd wedi gorfod cael cymorth y gwasanaethau brys i symud cemegau a restrwyd yn ddiweddar mewn canllawiadu diwygiedig o'r Adran Addysg.

Cynhelir dau gyfarfod nesaf y pwyllgor ar 1 Chwefror 2017 a 24 Mai 2017, y ddau am 10.00am yn Ystafell y Cyngor.